# DOLEN

YSGOL BRO TEIFI

Rhifyn 1 - 3ydd o Fehefin 2024

## Croeso

Croeso i rifyn cyntaf ein cylchlythyr newydd ar gyfer rhieni a gofalwyr Ysgol Bro Teifi - Dolen.

Ein bwriad yw defnyddio dolen i rannu newyddion a gwybodaeth bwysig gyda chi. Cofiwch y gallwch ddod o hyd i wybodaeth bwysig am ein ysgol ar ein gwefan newydd www.ysgolbroteifi.cymru. Dilynwch ein tudalen facebook yn osgystal er mwyn gweld llwyddiannau ein disgyblion talentog o fewn yr ysgol a thu hwnt!

## Penodi Dirprwy Newydd!

Cyn y gwyliau hanner tymor, penodwyd Mrs Eirlys Thomas yn Ddirprwy Bennaeth newydd Ysgol Bro Teifi. Ar hyn o bryd, mae Mrs Thomas yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin a daw a phrofiad helaeth i mewn i'r rôl.

Rydym yn gyffrous iawn ac yn edrych ymlaen at Mrs Thomas yn ymuno gyda ni ym mis Medi!



# Meistri Meifod!

Llongyfarchiadau i'n holl ddisgyblion a fu'n cystadlu ar gaeau fferm Mathrafal, Meifod dros y gwyliau. Diolch hefyd i'r holl staff a gwirfoddolwyr a fu'n hyfforddi a pharatoi'r disgyblion. Ardderchog!



1 – Tîm Siarad Cyhoeddus Bl 10 a dan 19 oed



3 – Parti Deulais Bl 6 ac Iau



2 – Ensemble Lleisiol Bl 6 ac Iau



1 – Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl 7-9

# Nodyn am Wisg Ysgol

Hoffwn atgoffa rhieni a gofalwyr ynghylch y wisg ysgol gywir ar gyfer yr Haf. Nid ydym yn caniatau gwisg chwaraeon fel gwisg ysgol. Os bydd y tymheredd yn uchel iawn, bydd yr ysgol yn cysylltu gyda chi drwy Parentmail i nodi newid dros-dro i'r wisg. Rydym yn caniatau i ddisgyblion i wisgo siorts wedi eu teilwra i'r ysgol os maent yn dymuno gwneud.
I wybod mwy am y wisg ysgol a'r disgwyliadau o ran gemwaith a cholur, dilynwch y ddolen i'n gwefan

https://www.ysgolbroteifi.cymru/section/13-gwisg-ysgol/

# Galw am eich barn!

Yn dilyn trafodaethau o fewn fforwm llais y disgybl yr ysgol, 'Senedd Bro Teifi", rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn am wisg ysgol gyfredol Ysgol Bro Teifi.

Noder na fydd yr ymatebion i'r holiadur hwn yn cael unrhyw effaith ar y wisg ar gyfer Medi 2024 ond er mwyn gweld a oes angen gwneud unrhyw addasiadau ymhellach i'r dyfodol, rydym yn croesawi eich barn yn fawr. Dilynwch y linc isod i ddweud eich dweud:

https://forms.office.com/e/9meprwmwCJ

Senedd Bro Teifi

# Pencampwyr Cymru!

**Llongyfarchiadau anferthol i dîm Merched Dan 16 Ysgolion Ceredigion ar eu buddugoliaeth ysgubol yn erbyn Ysgolion Caerdydd yn y rownd derfynol. Rydym yn falch iawn fel ysgol o'n merched ni Lleucu, Branwen a Kaylee a oedd yn rhan o'r tîm hwn. Da iawn chi ferched. Tipyn o gamp!**



# Dyddiadau Pwysig

**3ydd - 14eg o Fehefin -** Profion Cenedlaethol Bl 3-6

**17eg-22ain o Fehefin -** Profion Dosbarth Bl 7 - 8

**26ain & 27ain o Fehefin -** Diwrnodau Pontio Bl 6

**27ain o Fehefin** – Mabolgampau Meithrin & Derbyn

**28ain o Fehefin -** Mabolgampau Oed Cynradd

**1af o Orffennaf -** Diwrnod Hwyl Bl 5

**5ed o Orffennaf -** Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd (Dyddiad Newydd)

**10fed o Orffennaf-** Mabolgampau Oed Uwchradd

**11&12 o Orffennaf -** Eisteddfod Ysgol Oed Uwchradd

# Gair am ffonau symudol!

Mae gan yr ysgol bolisi clir ar ddefnydd o ffonau symudol .

- Nid oes hawl gan ddisgyblion oed cynradd i ddod a ffon i'r ysgol.
- Rydym yn caniatau i ddisgyblion oed uwchradd i ddod a ffonau ar y campws.
- Nid oes hawl gan ddisgyblion i ddefnyddio ffonau o gwbwl ar y safle. Dylid eu cadw yn eu pocedi, mewn bag neu gellir gofyn am locer os dymunwch.
- Os caiff plentyn ei ddal yn defnyddio ffon..
  - Y tro cyntaf - ffon yn cael ei gymryd a'i osod yn y dderbynfa i'w gasglu ar ddiwedd y dydd.
  - Ail waith - ffon yn cael ei gymryd a'i osod yn y dderbynfa - rhiant i'w gasglu.
- Os oes angen i chi gysylltu gyda'ch plentyn - cysylltwch gyda'r dderbynfa a gwnawn ni drosglwyddo'r neges.
- Os oes angen i'ch plentyn gysylltu gyda chi - bydd modd iddynt wneud drwy'r dderbynfa.

# Apwyntiad gyda'r Pennaeth

Cofiwch bod modd i chi wneud apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn nad ydych wedi gallu mynd i'r afael â hi, drwy'r ffynonellau arferol. Bydd yr apwyntiad am uchafswm o 10 munud a bydd y Pennaeth yn casglu gwybdoaeth am yr hyn sy'n eich poeni a threfnu amser pellach os oes angen. Gweler isod fanylion pellach:



**Amserau apwyntiadau**

Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)
Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)

I archebu apwyntiad, ewch i

https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/